



**Croeso: beginners' Welsh**

*Change*

Ugain mlynedd yn ôl, beth oedd yn wahanol? Listen now to what has changed over the past twenty years:

**Gordon:**

Ugain mlynedd yn ôl, ro'n i'n byw yn Aberdâr. Do'n i ddim wedi priodi. Roedd fy ngwallt yr un steil â mae e heddi(w). Doedd dim gwallt gwahanol gyda fi. Roeddwn i'n gwisgo yr un dillad ag o'r blaen hefyd. Dw i ddim yn hoffi ffasiwn. Roedd car gyda fi. Hen gar. Dydy bywyd ddim wedi newid o gwbl. Roeddwn i'n gwneud yr un pethau o'r blaen â rwy'n gwneud nawr.

**Lynda:**

Ugain mlynedd yn ôl, ro'n i'n byw yn yr un tŷ yn Heath, y Waun yng Nghaerdydd. Ac ro'n i'n dysgu Almaeneg i oedolion rhan amser. Hefyd ro'n i'n gofalu am fy rhieni oedd yn dost ar y pryd. Ro'n i wedi priodi â Robert, a roedd gwallt brown gyda fi yr un peth â nawr ond dim allan o'r botel ar y pryd. A ro'n i'n gwisgo yr un peth, dw i'n credu, bron yr un fath o ddillad. Roedd car gyda fi: VW Beetle oren. A ro'n i'n chwarae badminton weithiau a nofio. A do'n i ddim yn gwneud rhywbeth gwahanol i bethau dw i'n gwneud nawr.